Ap GIG Cymru
NHS Wales App

GIG Cymru NHS Wales | Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Digital Health and Care Wales

# Canllawiau i Bractisiau Meddygon Teulu
# Dilysu Hunaniaeth ar gyfer Gwasanaeth Ddilysu Hunaniaeth Cymru

Andrew Fletcher
Llywodraethu Gwybodaeth
Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Andrew Fletcher
Llywodraethu Gwybodaeth

Ail Argraffiad

Cyhoeddwyd gan:
Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Tŷ Glan-yr-Afon
21 Heol Ddwyreiniol y Bont-faen
Caerdydd
CF11 9AD

©Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Caerdydd, 2025

## Tabl Cynnwys

1. Cyflwyniad ..... 4
2. Gwiriadau hunaniaeth i ddefnyddio Ap GIG Cymru ..... 4
3. Dilysu Hunaniaeth ..... 4
4. Archwilio dilysu hunaniaeth ..... 6
5. Awdurdodi clinigol ..... 6
6. Rheoli Mynediad: Gofynion gweinyddol ..... 7
7. Arweiniad Pellach ..... 7
Atodiad A: Dilysu hunaniaeth rhywun trwy dystiolaeth ddogfennol ..... 8
Atodlen B: Ffurflen Gais Dilysu Hunaniaeth ..... 10
Atodlen C: Rhestr Termau ..... 12
Atodiad D: Siart Broses (Canllaw) ..... 13

## 1. Cyflwyniad

Darperir Gwasanaethau Cleifion Digidol fel ffordd o gyrchu gwasanaethau'r GIG. Mae'r holl wybodaeth iechyd sy'n ymwneud â chleifion yn gyfrinachol, ac mae gan y GIG a'i staff ddyletswydd cyfrinachedd i'r claf. Yn ogystal, mae Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU) a Deddf Diogelu Data 2018 yn gosod rhwymedigaeth gyfreithiol ar y rhai sy'n prosesu gwybodaeth cleifion i sicrhau bod data'n cael ei gyrchu'n gyfreithlon ac yn ddiogel. Mae'n bwysig yn gyfreithiol ac yn foesegol i ddilysu hunaniaeth y claf cyn rhoi mynediad i Wasanaethau Cleifion Digidol, megis Ap GIG Cymru, i sicrhau mai dim ond yr unigolion cywir sy'n gallu cyrchu'r wybodaeth.

Mae'r canllawiau hyn wedi'u cynhyrchu i gynorthwyo Ymarfer Cyffredinol i ddeall yr ystyriaethau perthnasol wrth ddilysu hunaniaeth claf er mwyn iddo gael mynediad at Wasanaethau Cleifion Digidol.

Darperir Geirfa o Dermau na ddiffinnir fel arall yn y canllaw hwn yn Atodiad C er hwylustod.

## 2. Gwiriadau hunaniaeth i ddefnyddio Ap GIG Cymru

Efallai y bydd angen gwiriadau adnabod ar gyfer nifer o wasanaethau yn y GIG. Gellir defnyddio'r ddogfen hon fel canllaw ar sut y gellir dilysu hunaniaeth gan ddefnyddio NHS Login.

Mae NHS Login yn darparu dilysu dau gam pan gaiff ei ddefnyddio am y tro cyntaf ar ddyfais, gydag opsiwn o alluogi dilysu biometrig ar gyfer mewngofnodi dilynol.

Rydym yn cydnabod bod pob practis meddyg teulu yn gweithredu'n wahanol, gydag amrywiaeth o ran meintiau tîm, capasiti a ffyrdd o weithio. Mater i bob practis felly yw penderfynu ar y ffordd fwyaf addas o gefnogi cleifion drwy'r broses Gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth Cymru. Gallai hyn gynnwys trefnu apwyntiad i gwblhau taith Gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth Cymru lawn yn ymarferol, neu ganiatáu i gleifion gasglu llythyr dilysu a chwblhau'r camau olaf eu hunain gartref gan ddefnyddio Ap GIG Cymru. I gefnogi practisiau, ceir siart llif proses a awgrymir yn **Atodiad D**.

## 3. Dilysu Hunaniaeth

Mae NHS Login yn darparu gwasanaeth lle gall claf brofi pwy ydyw gan ddefnyddio'r gwasanaeth ar-lein. Mewn rhai amgylchiadau fodd bynnag, efallai na fydd claf yn gallu defnyddio'r cyfleuster hwn oherwydd nad oes ganddo dystiolaeth ddogfennol sy'n ofynnol gan wasanaeth NHS Login, neu na all ddefnyddio'r gwasanaeth am ryw reswm arall, megis anabledd sy'n cyfyngu ar ei allu i ddefnyddio'r gwasanaeth. Ar rai achlysuron, efallai na fydd gan unigolion y wybodaeth dechnegol na'r hyder i gwblhau'r broses neu efallai na fyddant am uwchlwytho eu dogfennaeth. O dan yr amgylchiadau hyn, ac amgylchiadau eraill a allai godi, mae'r Gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth Cymraeg yn galluogi claf i gael ei ddilysu'n bersonol, yn yr un modd ag y cafodd defnyddwyr fynediad i Fy Iechyd Ar-lein. Gall hyn ddigwydd yn y practis, neu pan na all y claf fynychu practis am reswm, megis oherwydd ei iechyd neu ei anabledd, gall y practis hwyluso hyn mewn ffordd arall, megis yn ystod ymweliad cartref wedi'i drefnu gan feddyg neu nyrs.

Mae'n bwysig dilysu hunaniaeth person i sicrhau bod yr unigolyn cywir yn cyrchu gwybodaeth am gleifion. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Safon Hunaniaeth Iechyd Digidol GIG Cymru ar gyfer Gofal Sylfaenol (NHS login) i nodi sut y gellir cyflawni hyn mewn ffordd sy'n sicrhau bod hunaniaethau cleifion yn cael eu dilysu i gyrchu'r ystod lawn o wasanaethau. Darperir tri opsiwn yn y safon. Mae'r rhain fel a ganlyn:

Mae dwy ffordd y gall y practis ddilysu hunaniaeth claf at ddiben defnyddio'r ystod lawn o wasanaethau y mae NHS Login yn eu cyrchu. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Prawf adnabod trwy gyflwyno tystiolaeth ddogfennol o'u hunaniaeth
- Tystio wyneb yn wyneb

Yn y ddau achos, rhaid i'r claf brofi pwy ydyw yn bersonol.

## 3.1 Prawf o hunaniaeth y claf trwy gyflwyno tystiolaeth ddogfennol

Er mwyn dilysu hunaniaeth person trwy gyflwyno tystiolaeth ddogfennol, dylai'r practis ofyn am y canlynol:

- Dau fath o dystiolaeth ddogfennol fel y nodir yn Atodiad A i'r canllaw hwn, a dylai un ohonynt fod yn ddull adnabod â llun.
- Rhaid i'r claf allu ateb un neu fwy o gwestiynau ynghylch gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn ei gofnodion iechyd sy'n cadarnhau i'r practis mai'r un person sy'n cyflwyno'r dystiolaeth sy'n honni'r hunaniaeth.

Wrth archwilio dogfennau adnabod, mae'n bwysig sicrhau bod y ddogfen yn ymddangos yn ddilys. Ni ddylid derbyn copïau o ddogfennau fel prawf adnabod gan ei bod yn haws eu newid. Dylid gwneud cymhariaeth weledol rhwng y claf a'i ddull adnabod â llun i ddilysu pwy ydyw.

Mae Atodiad B yn cynnwys ffurflen gais a nodyn ffeil cysylltiedig y gellir eu llenwi a'u huwchlwytho i system y meddyg teulu i ddangos y camau a gymerwyd i ddilysu hunaniaeth y claf.

Oherwydd ystyriaethau cyfreithiol mewn perthynas â rhai dogfennau, byddem yn cynghori nad yw practisiau yn cadw copïau o ddogfennau adnabod.

## 3.2 Tystio Wyneb yn Wyneb

Gellir defnyddio tystio wyneb yn wyneb fel dull amgen os nad oes gan y claf unrhyw fath o ddogfennaeth adnabod dderbyniol a restrir yn Atodiad A.

Ni ddylid drysu rhwng tystio wyneb yn wyneb a mathau eraill o ddilysu hunaniaeth megis cydlofnodi ceisiadau am basbort neu drwydded yrru gan fod yn rhaid i'r person sy'n dilysu hunaniaeth y claf fod yn weithiwr iechyd proffesiynol sydd wedi'i awdurdodi i weld y cofnod gofal iechyd a gall gysylltu'r claf â'r cofnod hwnnw.

Mae hyn fel arfer yn symlach pan fo perthynas barhaus rhwng y claf a'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n ei drin, megis nyrs y practis neu feddyg teulu yn y practis sy'n trin claf. Fodd bynnag, lle nad yw'r cysylltiad wedi'i sefydlu cystal, gellir ategu'r dystiolaeth gan unrhyw dystiolaeth ddogfennol y mae clinigwr sy'n gweithio yn y practis yn ei hystyried yn briodol yn ei farn broffesiynol, ynghyd â chyfres o

gwestiynau yn ymwneud ag iechyd y claf a all ei gysylltu â'r cofnod. Fel canllaw, dylid ystyried unrhyw dystiolaeth ddogfennol a gynhwysir yn Atodiad A fel tystiolaeth ddogfennol briodol.

Lle dibynnir ar ddogfennau adnabod i brofi hunaniaeth unigolyn yn rhannol, mae'n bwysig sicrhau bod y ddogfen yn ymddangos yn ddilys. Ni ddylid derbyn copïau o ddogfennau fel prawf adnabod gan ei bod yn haws eu newid. Lle defnyddir tystiolaeth ffotograffig, dylid gwneud cymhariaeth weledol rhwng y claf a'i ddull adnabod â llun i ddilysu pwy ydyw.

Mae Atodiad B yn cynnwys ffurflen gais a nodyn ffeil cysylltiedig y gellir eu llenwi a'u huwchlwytho i system y meddyg teulu i ddangos y camau a gymerwyd i ddilysu hunaniaeth y claf.

Oherwydd ystyriaethau cyfreithiol mewn perthynas â rhai dogfennau, byddem yn cynghori nad yw practisiau yn cadw copïau o ddogfennau adnabod.

## 4. Archwilio dilysu hunaniaeth

Wrth ddefnyddio'r ffurflen gais a'r nodyn ffeil yn Atodiad B, mae hyn yn rhoi mecanwaith i'r practis archwilio dilysu hunaniaeth. Yn benodol, mae hyn yn rhoi gwybodaeth am y canlynol:

- Y person sydd wedi dilysu hunaniaeth yr unigolyn, ac
- Y modd y gwiriwyd hunaniaeth, a
- Thystiolaeth ddogfennol wedi'i darparu i ddilysu hunaniaeth y claf.

## 5. Awdurdodi clinigol

Mae'r canllaw hwn yn ymwneud yn benodol â'r broses o ddilysu hunaniaeth rhywun. Cydnabyddir y gellir cynnal y broses wirio ar yr un pryd ag y bydd rhai gwasanaethau penodol ar gael i'r claf. Pan fo mynediad i gael ei roi i unrhyw ran o'r cofnod iechyd, rhaid cynnal proses o awdurdodi clinigol. Ni ddylai cofnodion fod ar gael mewn amgylchiadau sy'n cynnwys:

- Pan fo'r clinigwr o'r farn resymol y byddai darparu'r wybodaeth hon yn achosi niwed i iechyd corfforol neu feddyliol y claf neu unrhyw berson arall.
- Mae'r wybodaeth yn cynnwys cyfeiriad at drydydd parti, ac ni fyddai'r wybodaeth hon yn cael ei datgelu i'r claf yn nisgwyliadau rhesymol y trydydd parti hwnnw.
- Nid oes gan y claf alluedd corfforol neu feddyliol i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein ei hun.
- Mae claf wedi'i orfodi i ofyn am fynediad i'w gofnodion, neu mae'r claf mewn perygl o fod yn agored i rannu cofnodion yn anfodlon.

Nid yw hon yn rhestr hollgynhwysfawr o amgylchiadau lle y dylid atal mynediad i gofnodion ar-lein, a chynghorir clinigwyr i ddilyn eu harweiniad proffesiynol eu hunain.

Mae Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu wedi cynhyrchu [Pecyn Cymorth Gwasanaethau Ar-lein i Feddygon Teulu] a allai fod o gymorth i ymarferwyr hefyd.

## 6. Rheoli Mynediad: Gofynion gweinyddol

Er mwyn cefnogi mynediad at wasanaethau ar-lein, dylai proses reoli glir fod ar waith i benderfynu sut:

- Mae'r practis yn ymdrin â rheoli cleifion sy'n gofyn am fynediad ar-lein i'w cofnodion iechyd.
- Mae digwyddiadau o fynediad anawdurdodedig i gofnodion yn cael eu rheoli.
- Dylai'r practis ymdrin ag unrhyw faterion diogelu a amheuir neu a gadarnhawyd.

Dylai fod uwch arweinydd sy'n gyfrifol am y broses gyffredinol, sef y Gwarcheidwad Caldicott fel arfer a all ddynodi nifer o gyfrifoldebau yn y broses megis:

- Dilysu dogfennau adnabod.
- Awdurdodi unrhyw fynediad.
- Rheoli Digwyddiadau o fynediad a amheuir neu fynediad anawdurdodedig.
- Delio ag unrhyw faterion diogelu a amheuir neu a gadarnhawyd.

Dylai'r practis ystyried defnyddio ffurflen gais i gofnodi cais y claf am fynediad i NHS Login. Mae ffurflen dempled wedi'i chynnwys yn Atodiad A. Mae ffurflen dempled ar gael mewn fformat Word a gellir ei haddasu i weddu i anghenion eich practis, sydd wedi'i lleoli ym mhecyn cymorth practis meddygon teulu (Pecyn Cymorth i Bractisiau Meddygon Teulu – Iechyd a Gofal Digidol Cymru). Gellir personoli'r ffurflen i weddu i ofynion y practis.

Dylai'r person sy'n ymchwilio i unrhyw ddigwyddiad sy'n ymwneud ag awdurdodi mynediad yn seiliedig ar ddilysu hunaniaeth fod yn berson gwahanol i'r person sydd wedi dilysu mynediad i'r system.

## 7. Arweiniad Pellach

Mae canllawiau pellach ar gyfer gwasanaethau ar-lein ar gael yn y Pecyn Cymorth i Bractisiau Meddygon Teulu - Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Gweler hefyd Safon Hunaniaeth Iechyd Digidol GIG Cymru ar gyfer Gofal Sylfaenol (NHS login) i gael manylion am y safon y glynir ati fel rhan o'r broses hon.

## Atodiad A: Dilysu hunaniaeth rhywun trwy dystiolaeth ddogfennol

Wrth ddilysu hunaniaeth rhywun, mae'n hanfodol bod y person yn cael cyfarfod wyneb yn wyneb i sicrhau bod cysylltiad clir rhwng yr adnabyddiaeth a dderbyniwyd, yr unigolyn a'i gofnod iechyd. Bydd hyn fel arfer yn digwydd yn y practis ond gall ddigwydd, lle bo angen o dan yr amgylchiadau, mewn lleoliad arall fel cartref y claf yn ystod ymweliad cartref, er efallai y bydd angen i aelod arall o staff y practis ddilysu'r manylion ar y system glinigol. Dylid nodi manylion y math o brawf adnabod a dderbynnir fel adnabyddiaeth ar yr adran briodol o'r ffurflen yn Atodiad B y canllaw hwn.

Mae rheolau penodol ar gopïo rhai dogfennau, felly argymhellir nodi pa ddogfennau a welwyd. Gellir uwchlwytho'r ffurflen berthnasol i system y practis yn lle'r dogfennau adnabod.

Mae’r rhestr isod yn cynnwys enghreifftiau o’r mathau o dystiolaeth y dylai Llywodraeth y DU eu hystyried yn rhai a dderbynnir.

### Adnabod trwy Ddogfennaeth

Mae'r safon yn ei gwneud yn ofynnol darparu o leiaf un ddogfen adnabod â llun fel rhan o'r broses adnabod. Bydd rhaid i gleifion ddarparu’r canlynol:

- *Dau ddarn o dystiolaeth gyda sgôr o 3 neu 4*; neu
- *Dystiolaeth un darn gyda sgôr o 2 ac un darn o dystiolaeth gyda sgôr o 3 neu 4*

Ceir manylion y dystiolaeth a dderbyniwyd fel y’i cynhwyswyd yn y safon a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn y tabl ar y dudalen nesaf.

### Adnabod trwy Dystio

Dylai'r person sy'n gwneud y tystio wyneb yn wyneb fod yn weithiwr iechyd proffesiynol sydd wedi'i awdurdodi i weld y cofnod gofal iechyd a gall gysylltu'r claf â'r cofnod hwnnw.

Mewn achosion lle nad yw’r berthynas mor sefydledig, gall clinigwr dderbyn y dystiolaeth sy’n angenrheidiol yn ei farn ef i sicrhau bod ganddo ddigon o sicrwydd i dystio i’r claf.

Ceir rhagor o wybodaeth am adnabyddiaeth drwy dystio wyneb yn wyneb ym mharagraff 3.2 y canllawiau.

| **Sgôr o 2** | **Sgôr o 3** | **Sgôr o 4** |
|---|---|---|
| Dogfen deithio gan y Swyddfa Gartref:<br>• dogfen deithio confensiwn<br>• dogfen person di-wladwriaeth<br>• dogfen un ffordd<br>• tystysgrif deithio | Pasbortau sy'n bodloni manylebau'r Sefydliad Hedfan Sifil Rhyngwladol (ICAO) ar gyfer dogfennau teithio y gellir eu darllen gan beiriannau, megis pasbort De Affrica | Pasbortau biometrig sy'n bodloni manylebau ICAO ar gyfer e-basbortau, fel pasbort y DU |
| Cardiau teithio a gyhoeddwyd gan y llywodraeth neu awdurdod lleol fel y'u cyhoeddwyd yn y DU (er enghraifft, Tocyn Rhyddid) | Cardiau adnabod o wlad yr UE neu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) sy'n dilyn safonau Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 2252/2004 | Cardiau adnabod o wlad yr UE neu'r AEE sy'n dilyn safonau Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 2252/2004 ac sy'n cynnwys gwybodaeth fiometrig |
| Tystysgrif priodas/partneriaeth sifil | Trwyddedau gyrru cerdyn-llun y DU | Hawlen breswylio fiometrig y DU |
| Cerdyn Teithio Rhatach Cymru i Rywun 60 a Throsodd | Trwyddedau gyrru'r UE neu'r AEE sy'n dilyn Cyfarwyddeb Ewropeaidd 2006/126/EC | |
| Cerdyn Teithio Rhatach Cymru i Berson Anabl | Dogfen adnabod etholiadol y DU (er enghraifft, Tystysgrif Awdurdod Pleidleiswyr) | |
| Tystysgrif dryll | Cerdyn Pasbort yr UD | |
| Tystysgrif addysg gan sefydliad addysgol a reoleiddir a chydnabyddedig (fel NVQ, SQA, TGAU, Lefel A neu dystysgrif gradd) | Cyfrif cyfredol banc, cymdeithas adeiladu neu undeb credyd (y gall yr hunaniaeth honedig ei ddangos trwy roi cerdyn banc i chi) | |
| Tystysgrif geni neu fabwysiadu | Cyfrif benthyciad myfyriwr | |
| Bathodyn Glas | Cyfrif credyd | |
| Hunaniaeth electronig 'sylweddol' o gynllun eIDAS hysbysedig | Cyfrif morgais (gan gynnwys cyfrifon morgais prynu-i-osod) | |
| Cerdyn prawf oedran a gydnabyddir o dan y Cynllun Safonau Prawf Oedran (PASS) | Cerdyn clyfar gyrrwr tacograff digidol | |
| Cyfrif credyd nwy neu drydan | Cerdyn adnabod y lluoedd arfog | |
| Cytundeb rhentu neu brynu ar gyfer eiddo preswyl | Cerdyn prawf oedran a gydnabyddir dan PASS gyda chyfeirnod unigryw | |
| | Cyfrif benthyciad (gan gynnwys cyfrifon hurbwrcasu) | |
| | Hunaniaeth electronig 'uchel' o gynllun eIDAS hysbysedig | |

## Atodlen B: Ffurflen Gais Dilysu Hunaniaeth

### RHAN A: Manylion y Claf a Chytundeb

**1. Manylion y claf**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfenw | | | |
| Enwau cyntaf | | | |
| Cyfeiriad | Cod post | | |
| Cyfeiriad E-bost | | | |
| Dyddiad Geni | | Rhif GIG | |
| Rhif Ffôn Cartref | | Rhif Ffôn Symudol | |

**2. Cytundeb**

Wrth wneud y cais hwn i gael mynediad at wasanaethau GIG Cymru drwy ddilysu fy hunaniaeth ym mhractis fy meddyg teulu, rwyf yn cytuno i'r canlynol:

i. Hoffwn gael mynediad at wasanaethau digidol ar-lein.
ii. Rwyf yn deall y byddaf yn rhwym i Delerau ac Amodau NHS Login y cofrestrais iddynt wrth greu fy nghyfrif gyda NHS Login.
iii. Byddaf yn gyfrifol am ddiogelwch unrhyw wybodaeth y byddaf yn ei gweld neu'n ei lawrlwytho.
iv. Os byddaf yn dewis rhannu unrhyw wybodaeth ag unrhyw un arall, bydd hyn ar fy menter fy hun.
v. Byddaf yn cysylltu â'r practis cyn gynted â phosibl os byddaf yn amau bod fy ngwybodaeth wedi'i chyrchu heb fy nghytundeb.
vi. Byddaf yn cysylltu â'r practis cyn gynted â phosibl os byddaf yn credu bod unrhyw wybodaeth yn fy nghofnod yn ymwneud â pherson arall, ei bod yn anghywir, neu'n anghyflawn.
vii. Byddaf yn rhoi gwybod i'r practis os credaf y gallai rhywun arall fy rhoi dan bwysau i gael mynediad at wasanaethau ar-lein y mae NHS Login yn eu cyrchu.

**3. Llofnod yr ymgeisydd**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llofnod** | | Dyddiad | |

**Gwybodaeth i'r claf:** Gallwch roi gwybod am unrhyw bryderon, a/neu gallwch ofyn i'ch practis ddileu eich mynediad ar-lein at wasanaethau meddyg teulu ar-lein penodol drwy gysylltu â'r practis yn ystod oriau agor.

**RHAN B: At Ddefnydd y Practis yn Unig**

**i. Math o Ddilysu**

Nodwch y math o ddilysu a ddefnyddiwyd i adnabod y claf.

| | |
|---|---|
| Dilysu trwy dystiolaeth ddogfennol | ☐ |
| Dilysu trwy dystio gan gyfeirio at y cofnod iechyd | ☐ |
| Dilysu trwy dystio gan gyfeirio at y cofnod iechyd a thystiolaeth ddogfennol o hunaniaeth | ☐ |

*Os caiff hunaniaeth y claf ei dilysu y tu allan i'r practis, rhowch fanylion sut y mae hunaniaeth y claf wedi'i dilysu gan gyfeirio at y wybodaeth sydd yng nghofnod iechyd yr unigolyn.*

| |
|---|
| |

**ii. Manylion y dogfennau adnabod a ddarparwyd:**

| Rh. | Dogfen | Lefel |
|---|---|---|
| 1. | | |
| 2. | | |

**iii. Dilysu hunaniaeth**

| **A gadarnhawyd hunaniaeth claf** | Do☐ | | Naddo ☐ |
|---|---|---|---|
| **Enw** | | | |
| **Swydd** | | | |
| **Corff Proffesiynol*** | | Rhif Cofrestru | |

**lle y bo'n berthnasol*

***Noder:** Bydd y claf yn ddiofyn yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau hynny a ddarperir i bob claf yn y practis meddyg teulu. Dylai practisiau gofio y bydd angen ystyried sicrwydd clinigol pan fo'r practis yn darparu mynediad at gofnodion gofal cryno a chofnodion iechyd manwl wedi'u codio.*

## Atodlen C: Rhestr Termau

| Term neu Fyrfodd | Diffiniad a gwybodaeth bellach |
|---|---|
| Dilysu Hunaniaeth | Dilysu tystiolaeth hunaniaeth y gellir ei chyflwyno gan berson i gefnogi profi ei hunaniaeth. |
| Cymhariaeth Gorfforol | Cymharu tebygrwydd person i ddogfennaeth ffotograffig y mae wedi'i chyflwyno i gefnogi profi eu hunaniaeth. Er enghraifft: pasbort neu drwydded yrru. |
| Gweithiwr Iechyd Proffesiynol | Person a gyflogir gan y sefydliad at ddiben darparu gwasanaethau GIG. Mae hyn yn cynnwys staff clinigol a staff anghlinigol sydd ag awdurdod dirprwyedig i ymgymryd â gweithgareddau sy'n ymwneud â darparu'r gwasanaethau hynny. |
| Staff Clinigol / Clinigwyr | Gweithiwr iechyd proffesiynol â chymwysterau meddygol, sydd wedi'i gofrestru â chorff proffesiynol, sy'n uniongyrchol gyfrifol am ofal a thriniaeth unigolion. |
| Dilysu | Dilysu hunaniaeth person. Manylion wedi'u cyhoeddi a'u gwirio ar ymweliadau dilynol. |

## Atodiad D: Siart Broses (Canllaw)




**Noder:** Dylid ystyried adnabyddiaeth trwy dystio fesul achos, ac mewn rhai achosion bydd yn seiliedig ar farn broffesiynol.